

Cynllun Cyflawni ar gyfer Cyflyrau ar y Galon

Gofal o'r safon uchaf i'r rhai sydd â chyflwr ar y galon neu sydd mewn perygl o ddatblygu cyflwr ar y galon

Cynhyrchwyd gan y Rhwydwaith a Grŵp Gweithredu ar gyfer Cyflyrau ar y Galon

Ionawr 2017

CYNNWYS

Cyflwyniad gan Gadeirydd Grŵp Gweithredu Cyflyrau ar y Galon	1
1. Trosolwg a Chefndir	4
2. Atal Clefyd Cardiofasgwlaidd	6
3. Canfod cyflyrau'n amserol, gofal effeithiol a diogel	9
4. Plant a Phobl Ifanc	13
5. Galluogwyr dros Gyflawni	15
6. Targedu ymchwil	19
7. Rhoi'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Cyflyrau ar y Galon ar waith	22
Atodiad 1- Dogfennau Strategol a Deddfwriaethol Ategol	24
Atodiad 2 - Dolenni i ddogfennau cyfeirio	27

Cyflwyniad gan Judith Paget, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Chadeirydd Grŵp Gweithredu Cyflyrau ar y Galon

Yn y cynllun cyflawni hwn ar gyfer cyflyrau ar y galon sydd wedi'i ddiweddarau, cadarnheir ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leihau nifer yr achosion o glefyd y galon y gellir ei atal i'r eithaf a sicrhau bod y rhai y mae unrhyw fath o gyflwr ar y galon yn effeithio arnynt yn cael mynediad amserol at lwybrau gofal safon uchel, ni waeth ble maent yn byw a ph'un a gaiff y rhain eu cynnig drwy ysbytai neu yn y gymuned.

Rydym wedi gwneud cynnydd o ran gwella gofal pobl sydd â chyflwr ar y galon yng Nghymru. Bu gostyngiad cyson yn nifer y bobl sy'n marw yng Nghymru o bob math o glefyd cardiofasgwlaidd. Yn 2010 bu farw ychydig dros 10,000 o bobl o glefyd cardiofasgwlaidd. Erbyn 2015 roedd hyn wedi gostwng i ychydig dros 9,000 o farwolaethau. Mae cyfradd y derbyniadau i'r ysbyty ar gyfer clefyd coronaidd y galon wedi gostwng yn sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf, sef 21%. Mae cyfradd y derbyniadau i'r ysbyty ar gyfer clefyd cardiofasgwlaidd a chlefyd coronaidd y galon wedi gostwng yn sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf, sef 10% ac 21% yn y drefn honno.¹

Bu cryn ddatblygiadau ym maes gofal y galon ledled Cymru ers y cynllun cyflawni gwreiddiol. Mae prosiectau arloesol megis datblygu'r rhaglen ar gyfer hypercolesterolemia etifeddol, cardioleg gymunedol, asesiadau risg cardiofasgwlaidd ychwanegol, gwasanaeth clefyd cynhenid y galon yn y de, mynediad uniongyrchol ar gyfer gofal sylfaenol at ddiagnosteg, diagnosteg a arweinir gan nyrsys, a systemau e-atgyfeirio ac e-gyngor oll wedi cael eu cefnogi gan GIG Cymru, gan arwain at well canlyniadau i gleifion. Mae hyn yn deyrnged i bawb sy'n rhan o'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau ar gyfer pobl sydd â chyflyrau ar y galon.

Fodd bynnag, erys heriau allweddol o hyd o ran cynnal gweithlu i ddarparu modelau gwasanaeth cynaliadwy ac mae amrywiadau mewn ymarfer na ellir eu cyfiawnhau a'r ffordd y darperir gwasanaethau yn parhau. Bu'n anodd pennu a chynnal cymariaethau, meincnodau a gwaith archwilio clinigol mewn sawl maes.

Mae'n rhaid i randdeiliaid barhau i gydweithio ac adeiladu ar y llwyddiant hyd yma er mwyn sicrhau bod y gwelliant a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn parhau. Mae sefydliadau cyflawni eisoes wedi ymgorffori methodoleg y cynllun cyflawni ar gyfer clefyd y galon felly yn y cam nesaf hwn o'r cynllun byddwn yn disgwyl gweld byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yn mynd ati i wella canlyniadau i bobl sydd â chyflwr ar y galon, lleihau amrywiadau clinigol a gweithio ar draws ffiniau sefydliadol. Mae'n rhaid i gynlluniau cyflyrau ar y galon byrddau iechyd gael eu hintegreiddio'n llawn â gwaith cynllunio strategol y byrddau iechyd, er mwyn sicrhau bod safonau cenedlaethol a llwybrau yn cael eu cyflawni'n llawn.

Mae her enfawr o'n blaenau, gyda'n poblogaeth sy'n tyfu ac yn heneiddio, yng nghyd-destun ein sefyllfa economaidd-gymdeithasol. Mae clefyd cardiofasgwlaidd yn achosi 28% o'r holl farwolaethau yng Nghymru, sef tua 8,800 o farwolaethau bob blwyddyn². Gwariodd y GIG £446 miliwn ar broblemau cylchrediad y gwaed, gan gynnwys clefyd cardiofasgwlaidd, yng Nghymru yn 2014/15³. Caiff y galw hwn ei osod yng nghyd-destun yr

¹ Llywodraeth Cymru, Law yn Llaw at Iechyd – Adroddiad Blynyddol ar Glefyd y Galon 2015

² Sefydliad Prydeinig y Galon/Prifysgol Rhydychen mewn cydweithrediad â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol

³ Gwariant y GIG, <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Health-Finance/NHS-Programme-Budget/nhsexpenditure-by-budgetcategory-year>

adnoddau penodol sy'n debygol o fod ar gael ar gyfer iechyd a gwasanaethau gofal yng Nghymru, sy'n ei gwneud yn heriol i wella ansawdd a pherfformiad ar yr un pryd.

Wrth wraidd gwella ansawdd gwasanaethau mae mynd i'r afael ag amrywiadau. Mae achosion o glefyd y galon yn amrywio rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r gyfradd marwolaethau cynamserol (o dan 75 oed) ar gyfer Blaenau Gwent (106 fesul 100,000) bron ddwywaith cyn uchred â chyfradd Bro Morgannwg (Bro Morgannwg: 56 fesul 100,000)⁴. Fel gwlad fach gyda nifer fach o ddarparwyr gallwn wneud yn well i fynd i'r afael â gwahaniaethau mewn llwybrau gofal a lleihau anghydraddoldebau.

Ein gweledigaeth yw llwybrau gofal sylfaenol, cymunedol, eilaidd ac arbenigol cwbl integredig, wedi'u cynllunio ar sail anghenion y claf, er mwyn rhoi'r cymorth sydd ei angen ar gleifion i wneud yr hyn a allant i reoli eu cyflwr. Bydd pobl ond yn treulio cyfran fach o'u bywydau mewn cyswllt uniongyrchol â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac felly mae cyfrifoldeb personol arnynt i wneud y cyfan a allant i reoli eu cyflwr. Yn bennaf, mae hyn yn ymwneud â dewisiadau ffordd o fyw a chymryd rhan mewn rhaglenni i leihau'r risg o gymhlethdodau yn y blynyddoedd a'r degawdau sydd i ddod. Y cysyniad hwn sydd wrth wraidd dyfodol iechyd gofal, sef cydgyfrifoldeb a chyd-gynhyrchu gofal.

Mae angen inni barhau â'n hymdrechion i fynd i'r afael â chlefyd y galon y gellir ei atal. Gwn fod gweithwyr iechyd proffesiynol, timau rheoli, y trydydd sector, y cleifion eu hunain a gofalwyr yn gweithio'n galed o ddydd i ddydd er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau. Diben y cynllun cyflawni hwn yw cefnogi ac annog yr ymdrech hon drwy roi arweiniad cenedlaethol, annog cydweithredu a blaengynllunio. Drwy gydweithio rydym yn fwy tebygol o gyrraedd y man y mae angen inni ei gyrraedd.

Mae'n rhaid inni wneud y defnydd gorau o'n hasedau yng Nghymru. Yn bennaf, medrusrwydd, ymroddiad a gwaith caled ein staff clinigol, rheolwyr gwasanaethau a sefydliadau'r trydydd sector. Dylem hefyd geisio creu perthynas fwy cyfartal rhwng cleifion a gweithwyr iechyd gofal proffesiynol, gan alluogi pobl i gyd-gynhyrchu eu triniaeth yn seiliedig ar eu gwerthoedd, eu nodau a'u hamgylchiadau.

Mae maint Cymru yn rhoi cyfle inni weithredu ar sail poblogaeth, gyda gweledigaeth gyffredin a rennir gan ddefnyddio dulliau gweithredu cydweithredol ac wedi'u cynllunio. Byddwn yn parhau i ddod â'n darparwyr, ein rhanddeiliaid a'n comisiynwyr ynghyd yn rheolaidd er mwyn gwireddu'r weledigaeth gyffredin hon. Byddwn yn adeiladu ar ein hymrwymiad i ansawdd, tegwch a llwybrau gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael inni. Gall cysondeb ein dulliau gweithredu roi nerth inni barhau â'r cynllun cyflawni hyd at 2020. Yn ogystal â manteisio ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n ddeddf arloesol, ein hymyriadau iechyd cyhoeddus sefydledig a'n sylfaen ymchwil o'r radd flaenaf.

Mae ein Cynllun Cyflawni ar gyfer Cyflyrau ar y Galon yn parhau i gynnig fframwaith ar gyfer gweithredu gan fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau sy'n gweithio gyda'u partneriaid. Fe'i cyhoeddwyd gyntaf yn 2013, yn sgil ymgysylltu ac ymgynghori ffurfiol sylweddol ag asiantaethau partner allweddol, rhanddeiliaid, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr ac mae'n strategaeth drawslywodraethol sy'n nodi'r disgwyliadau i bobl o bob oedran sydd â chyflwr ar y galon, lle bynnag y maent yn byw yng Nghymru ac ni waeth beth fo'u hamgylchiadau. Mae'r cynllun hwn yn cwmpasu nifer o gamau gweithredu, er mwyn diwallu

⁴ Sefydliad Prydeinig y Galon/Prifysgol Rhydychen mewn cydweithrediad â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol

anghenion pobl sy'n wynebu risg o gyflwr ar y galon neu y mae cyflwr ar y galon yn effeithio arnynt.

Mae'r cynllun hwn sydd wedi'i ddiweddarau wedi cael ei ddatblygu drwy bartneriaeth. Mae'r cydweithrediad parhaus hwn rhwng Llywodraeth Cymru, y Grŵp Gweithredu Cyflyrau ar y Galon, Rhwydwaith y Galon Cymru, cyrff proffesiynol a sefydliadau yn y trydydd sector yn allweddol i gyflawni cam nesaf cydweithio er mwyn sicrhau'r canlyniadau yn gynt a chyd mwy o effaith.

1. Trosolwg a Chefndir

Mae'r cynllun hwn yn cwmpasu nifer o gamau gweithredu, er mwyn diwallu anghenion pobl sy'n wynebu risg o gyflwr ar y galon neu y mae cyflwr ar y galon yn effeithio arnynt. Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar gyflyrau ar y galon ac nid yw'n cynnwys cyflyrau cardiofasgwlaidd eraill megis clefyd cronig yr arennau a chlefyd y rhydweliâu amgantol. Bydd y cynllun hwn yn canolbwyntio ar ansawdd y llwybr gofal a'r canlyniadau y mae'n eu sicrhau drwy ystyried cydymffurfiaeth â safonau, meincnodi ag eraill a nodi meysydd i'w gwella.

Mae'r cynllun cyflawni hwn yn cynnwys cyflyrau ar y galon yn fwy cyffredinol, gan nodi pwysigrwydd cynnig prosesau canfod a thrin o safon uchel ar gyfer pob cyflwr pwysig ar y galon, gan gynnwys:

- Methiant y galon (a achosir gan glefyd coronaidd y galon yn bennaf)
- Rheoli rhythm, gan gynnwys rheoli afreoleidd-dra'r galon a ffibriliad atriol
- Clefyd cynhenid y galon (ymhlith plant ac oedolion)
- Cyflyrau etifeddol neu idiopathig, gan gynnwys cardiomyopathïau.

Mae cryn dipyn o dir cyffredin â'r adrannau ar atal yng Nghynlluniau Cyflawni eraill Llywodraeth Cymru, megis *Cynlluniau Cyflawni ar gyfer Strôc a Diabetes*. Ar gyfer rhai pobl sydd â chlefyd ar y galon bydd yn briodol cyfeirio at y *Cynllun Cyflawni ar gyfer Gofal Diwedd Oes a'r Cynllun Cyflawni ar gyfer y Rhai sy'n Ddifrifol Wael* hefyd.

Er gwaethaf ymdrechion i wella gofal pobl sydd â chyflwr ar y galon a sicrhau bod canllawiau NICE a safonau ansawdd yn cael eu dilyn wrth drin cleifion er mwyn gostwng cyfraddau marwolaethau a gwella ansawdd bywyd, mae angen codi'r proffil a sicrhau newidiadau yn gynt. Mae angen gwasanaethau cyson a theg arnom yn y dyfodol er mwyn sicrhau y caiff gofal fforddiadwy integredig o safon ei ddarparu yn wyneb galw, cymhlethdod a disgwyliadau cynyddol. Mae angen hefyd inni gyflawni o ran mandad gofal, diogelwch a phrofiadau gwell i gleifion wedi'u hategu gan brosesau cyfathrebu a chynllunio.

Dylai plant sy'n byw gyda chyflwr ar y galon gael y cymorth a'r gofal gorau posibl yng Nghymru ym mhob amgylchedd, gan gynnwys ysgolion. Mae angen hefyd inni ystyried sut y gallwn ymgysylltu â chleifion yn well a deall eu profiad, yn genedlaethol ac yn lleol, er mwyn sicrhau y caiff llwybrau gofal eu cyd-gynhyrchu'n wirioneddol gyda mewnbwn strwythuredig ac eang. Mae'n rhaid inni hefyd ddefnyddio'r arweinwyr clinigol yn y maes hwn i sbarduno newidiadau i systemau a bod yn ymatebol i ganfyddiadau archwiliadau clinigol ac adolygiadau gan gymheiriaid, yn ogystal ag ymgorffori rhaglenni gwella yn fwy rhagweithiol.

Mae'r cynllun cyflawni hwn sydd wedi'i ddiweddarau yn adeiladu ar y cam cyntaf ac yn cynnig y parhad hollbwysig o ran dulliau gweithredu i'r GIG sydd ei angen arno. Mae'r cynllun wedi'i nodi mewn strwythur tebyg, gan gynnwys yr angen i atal yr hyn y gellir ei atal, canfod cyflyrau'n gynnar, darparu gofal, triniaeth ac ymchwil effeithiol a diogel. Mae'r penodau hyn wedi'u hategu drwy'r cynllun cyfan gan yr angen am wybodaeth o safon am gleifion ac adnoddau digidol. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys cyflwyniad ac adrannau adrodd ar berfformiad symlach. Mae hefyd wedi'i lunio i adlewyrchu'r sbardunau strategol diweddaraf, gan gynnwys gofal iechyd darbodus, y cynllun gofal sylfaenol a deddfwriaeth newydd.

Mae'n hollbwysig bod gwasanaethau yn cyd-dynnu â'i gilydd ac yn gwneud popeth o fewn eu gallu i leihau'r galw yn y dyfodol a sicrhau'r canlyniadau gorau i gleifion. Rydym wedi cyrraedd man lle mae angen inni adeiladu ar y sylfeini a osodwyd, ond gyda ffocws a phenderfyniad a fydd yn sicrhau nid gwelliant cynaliadwy graddol ond newid sylfaenol ar unwaith mewn cyflymder er mwyn i Gymru arwain y ffordd o ran rhoi gofal i bobl, o bob oedran, sy'n wynebu risg o gyflwr ar y galon neu y mae cyflwr ar y galon yn effeithio arnynt yng Nghymru.

Ers i'r cynllun cyflawni cyntaf gael ei gyhoeddi bu nifer o newidiadau strategol a deddfwriaethol sydd wedi effeithio ar bolisiâu ac mae angen i hyn gael ei adlewyrchu yn y cynllun cyflawni hwn sydd wedi'i ddiweddarau. Ceir crynodeb o'r rhain yn Atodiad 1.

2. Atal clefyd cardiofasgwlaidd

Mae clefyd cardiofasgwlaidd yn dal i fod yn un o brif achosion salwch a marwolaeth yng Nghymru. Yng Nghymru, mae mwy nag 1 o bob 7 dyn a bron 1 o bob 10 menyw yn marw o ganlyniad i glefyd coronaidd y galon⁵. Ymhlith y materion y mae angen mynd i'r afael â hwy mae lleihau ffactorau risg a nodi sut y gellir gwneud gwelliannau er mwyn lleihau cyfraddau afiachedd a marwolaethau sy'n gysylltiedig â chlefyd cardiofasgwlaidd.

Mae clefyd coronaidd cynamserol y galon yn gyflwr y gellir ei atal i raddau helaeth, y dylanwedd arno'n sylweddol gan dlodi a phenderfynyddion iechyd economaidd-gymdeithasol - yn ogystal â ffactorau megis hanes teuluol, ysmegu, yfed mwy o alcohol na'r hyn a argymhellir, gordewdra, diffyg ymarfer corff a phwysedd gwaed uchel heb ei drin. Bydd lleihau lefelau clefyd y galon yn gofyn am ddulliau gweithredu rhagweithiol o fynd i'r afael â'r penderfynyddion iechyd economaidd-gymdeithasol sylfaenol a hyrwyddo ffordd o fyw iach o blentyndod ymlaen. Lle y bo'n briodol, gall strategaethau atal trawsbynciol fod yn gymwys i gynlluniau arbenigedd eraill, nid yn unig i gyflyrau ar y galon, diabetes a strôc ond hefyd ganser.

Dylai adnoddau gael eu targedu at ardaloedd lle ceir y risg fwyaf, ar lefel y boblogaeth ac ar sail ymyriadau unigol sy'n ystyriol o amrywiaeth ddiwylliannol. Dylid mabwysiadu dull gweithredu amlddisgyblaethol o hyrwyddo byw'n iach a grymuso pobl i ofalu amdanynt hwy eu hunain o oedran ifanc. Felly dylai unigolion gael eu hannog i fyw bywydau iachach drwy wella eu gwybodaeth am ffactorau risg a sut i'w lleihau drwy roi cymorth, addysg a chyfeiriadau effeithiol at wybodaeth berthnasol.

Mae'n bwysig deall risgiau allweddol i'r boblogaeth drwy gydol oes ac yna ddarganfod pryd mae newidiadau mewn ymddygiad yn digwydd e.e. pobl yn rhoi'r gorau i weithgarwch corfforol, mynd dros bwysau neu ddechrau ysmegu. Mae'n rhaid i adnoddau wedi'u targedu sicrhau ymyriadau sy'n atal y newid mewn ymddygiad mewn modd amserol, sy'n gymesur â'r angen ac anghydraddoldeb mewn iechyd.

Gellir lleihau nifer y bobl sy'n ysmegu ac anghydraddoldeb drwy wneud y canlynol:

- Datblygu dealltwriaeth glir o'r pwysau cymdeithasol ac economaidd mewn cymunedau e.e. cymunedau difreintiedig a grwpiau oedran lle mae cyfraddau ysmegu ar eu huchaf.
- Cefnogi ymyriadau dwys wedi'u targedu i ymdrin yn benodol ag atal pobl rhag dechrau ysmegu a'u helpu i roi'r gorau iddi ymhlith grwpiau targed.
- Dadlau dros fwy o weithredu ar lefel y boblogaeth, gan gynnwys mwy o fesurau i leihau fforddiadwyedd, hygyrchedd ac atyniad ysmegu.
- Hyrwyddo mannau di-fwg mewn ardaloedd lle mae plant yn ymgynnull er mwyn lleihau amlygiad i fwg ail law yn ystod plentyndod a dadnormaleiddio ysmegu fel gweithgarwch.
- Sicrhau y caiff pob cyswllt â gwasanaethau iechyd a gofal ei ddefnyddio i atal unigolion rhag dechrau ysmegu a'u hannog i roi'r gorau iddi.
- Sicrhau bod lleoliadau addysgol yn gweithredu dull system gyfan sy'n hyrwyddo cymdeithas ddi-fwg.

Lleihau canran y boblogaeth sydd dros bwysau ac yn ordew drwy'r canlynol:

⁵ Sefydliad Prydeinig y Galon, ystadegau clefyd cardiofasgwlaidd –Taflen Ffeithiau i Gymru, Rhagfyr 2016

- Gwell dealltwriaeth o'r rheswm pam mae unigolion yn debygol o fynd dros bwysau neu'n ordew pan fyddant yn oedolion ifanc a sut y gellir atal hyn.
- Sicrhau bod ymyriadau effeithiol a llwybrau ar gyfer atal, trin a rheoli gordewdra yn ystod plentynodod ar gael fel mater o drefn ac yn cael eu gweithredu'n systematig, gan gynnwys ymyriadau cynenedigol.
- Cefnogi ymyriadau dwys wedi'u targedu i ymdrin yn benodol â phroblemau pwysau a deiet mewn cymunedau difreintiedig.
- Dadlau dros fwy o weithredu ar lefel y boblogaeth er mwyn sicrhau bod bwyd iachus ar gael i bawb.

Cynyddu lefelau gweithgarwch corfforol yn enwedig ymhlith grwpiau poblogaeth hŷn drwy'r canlynol:

- Gwell dealltwriaeth o'r rheswm pam mae unigolion yn rhoi'r gorau i ymarfer corff wrth iddynt fynd yn hŷn a sut y gellir atal hyn.
- Cefnogi ymyriadau o fewn grwpiau oedran wedi'u targedu er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol.
- Gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n cymell ac yn rhwystro pobl rhag ymgymryd â gweithgarwch corfforol.
- Ystyried ymyriadau ar sail dull gweithredu mewn lleoliad.

Lleihau faint o alcohol a yfir a phyliau o oryfed drwy'r canlynol:

- Gwell dealltwriaeth o'r newidiadau cymdeithasol sy'n achosi newid demograffig yng nghyffredinrwydd alcohol.v
- Dadlau dros fwy o weithredu i leihau'r graddau y caiff alcohol ei farchnata a'i hyrwyddo i'w yfed gartref, e.e. cynigion amlbrynu, isafswm pris uned alcohol.
- Codi ymwybyddiaeth o yfed alcohol mewn meintiau niweidiol mewn ardaloedd llai difreintiedig.

Lleihau nifer y bobl sydd â phwysedd gwaed uchel heb ei ganfod na'i drin gyda phrosesau canfod cynnar a thriniaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

- Sicrhau bod y rhai y nodir bod eu mesuriad pwysedd gwaed yn uwch na'r disgwyl yn cael cynnig llwybr atgyfeirio priodol i reoli eu cyflwr er mwyn helpu i leihau'r risgiau hysbys.

Mae asesiad risg clefyd cardiofasgwlaidd yn rhaglen addasu ffactorau risg systematig sy'n seiliedig ar boblogaeth sy'n cynnwys canfod clefyd cardiofasgwlaidd, ffibriliad atriol a diabetes ymhlith y boblogaeth 40 i 64 oed yn gynnar, gan flaenoriaethu clystyrau o amddifadedd mawr. Mae dau fodel peilot yn awgrymu bod cynnig cymorth i addasu ffordd o fyw ac ymddygiad, sy'n cysylltu cleifion â chymorth cymunedol, megis gwasanaethau rhoi'r gorau i smygu a/neu sbarduno triniaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth drwy lwybrau clinigol y cytunwyd arnynt yn diwallu amcanion cynllunio, a hynny mewn perthynas â chefnogi gallu a chynaliadwyedd gofal sylfaenol yn ogystal â lleihau derbyniadau gofal heb eu cynllunio sy'n ddiangen yn seiliedig ar ofal iechyd darbodus.

Mae'r blaenoriaethau ar gyfer hybu calonnau iach yn gyson iawn ag atal afiechyd mewn nifer o gyflyrau ac â'r cynlluniau cyflawni ar gyfer strôc a diabetes.

Camau gweithredu allweddol

1. Dylai byrddau iechyd roi ar waith ddull o ymdrin â chlefyd cardiofasgwlaidd, diabetes ac asesiadau risg ffibriliad atriol sy'n seiliedig ar boblogaeth gan gynnwys rhaglenni wedi'u targedu at y grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd.

2. Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid (gan gynnwys byrddau gwasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector) i wneud y canlynol:
 - Codi ymwybyddiaeth o fyw'n iach
 - Cyfeirio at adnoddau gwybodaeth, cyngor a chymorth sydd eisoes ar gael mewn perthynas â newid eich ffordd o fyw.
 - Datblygu a chyflwyno strategaethau a gwasanaethau lleol i fynd i'r afael â phenderfyniadau sylfaenol anghydraddoldeb iechyd a ffactorau risg ar gyfer clefyd coronaidd y galon
 - Targedu adnoddau mewn ardaloedd o boblogaeth lle ceir risg uchel (megis ardaloedd difreintiedig) a meysydd mawr eu heffaith (gan gynnwys camau ymyrryd yn gynnar yn ystod beichiogrwydd ac ymhlith plant i atal afiechyd o ddechrau eu hoes)
3. Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru a byrddau iechyd, gyda chymorth Rhwydwaith y Galon Cymru, yn cefnogi ac yn hwyluso meddygon teulu, nyrsys practis a fferyllwyr cymunedol i fynd ati i wneud y canlynol:
 - Achub ar bob cyfle ym maes gofal sylfaenol i hyrwyddo dewisiadau byw'n iach a rhoi'r gorau i ysmegu
 - Sicrhau bod profion a thriniaeth ar gyfer ffactorau risg megis pwysedd gwaed uchel a cholesterol ar gael yn gyson

Dangosyddion canlyniadau a mesurau sicrwydd

- Cyfraddau clefyd coronaidd y galon - cyfran y cleifion o dan 75 oed sy'n byw gyda chlefyd y galon fel y'u cofnodwyd ar gofrestrau clefyd y galon meddygon teulu
- Dangosyddion canlyniadau ar gyfer mesur iechyd poblogaeth Cymru yn fwy cyffredinol yn cael eu cynnwys yn y Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus
- O ran canlyniadau sy'n ymwneud â phlant, byddwn yn ystyried y wybodaeth sydd ar gael am ysmegu yn ystod beichiogrwydd, marwolaethau amenedigol, pwysau geni isel, bwydo ar y fron, gordewdra ymhlith plant, ysmegu yn 11 oed ac yn 15 oed, yfed ymhlith plant ac ymarfer corff plant.

3. Canfod cyflyrau'n amserol, gofal effeithiol a diogel

Mae angen i bobl sy'n dioddef symptomau clefyd y galon gael mynediad at brosesau canfod a thrin cyflym ac effeithiol, gan gynnwys llawdriniaeth lle y bo'n angenrheidiol mor agos i'w cartref â phosibl. Er mwyn mynd ati mewn ffordd gyfannol ac integredig yn seiliedig ar y boblogaeth i gynnal gwelliannau mewn canlyniadau sy'n ymwneud â'r galon byddwn yn defnyddio model llwybr oes gyfan ledled Cymru. Bydd hwn yn cynnwys prosesau atal sylfaenol a nodi ffactorau risg yn gynnar i reoli ar draws sectorau a sefydliadau. Bydd yn sicrhau bod cleifion wrth wraidd eu gofal yn ogystal ag ymgysylltu â'r gweithlu o arweinwyr clinigol er mwyn sicrhau mynediad cyfartal a chysondeb clinigol ledled Cymru ar sail dull gweithredu gofal iechyd unwaith i Gymru a darbodus.

Dangoswyd bod amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn fesur gwael o ansawdd. Dylai cleifion ddechrau cael eu trin o fewn 26 wythnos ar ôl cael eu hatgyfeirio gan eu meddyg teulu er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl iddynt. Mae'r mesur hwn yn colli poblogaeth bwysig sydd â risg uchel y mae arnynt angen i elfennau penodol o'r targed hwn gael eu cyflawni. Mae i'r llwybr nifer o elfennau, gan gynnwys yr amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth. Mae angen cyflwyno amseroedd aros ar gyfer elfennau ym mhob agwedd ar y llwybr, gan gyrraedd safonau cenedlaethol ac integreiddio llwybrau gofal. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu mesuriadau a fydd yn adlewyrchu profiad y claf o'r llwybr yn well ac yn ysgogi gwelliant parhaus i oresgyn oedi mewn systemau yn unol â gofynion ansawdd. Bydd grŵp gweithredu cyflyrau ar y galon yn datblygu cynigion ar gyfer dull newydd o reoli amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn seiliedig ar angen clinigol a bydd yn helpu gwasanaethau i gynllunio a chydweithio'n fwy effeithiol.

Bydd Rhwydwaith y Galon Cymru yn hwyluso'r gwaith hwn i ddwyn ynghyd y rhai sy'n ymwneud â'r llwybr ar gyfer cyflwr penodol er mwyn datblygu a gweithredu llwybrau sy'n seiliedig ar ansawdd. Dylai cleifion gael gofal o'r un ansawdd beth bynnag fo'u cyflwr a ble bynnag y maent yn byw yng Nghymru.

Bydd y llwybrau yn nodi'r gofynion ansawdd, dilyniant priodol o ymyriadau, terfynau amser, cerrig milltir a chanlyniadau a ddisgwylir, gan gydnabod y gall elfennau o'r llwybr gael eu cyflwyno'n wahanol yn lleol. Bydd y gwaith cychwynnol o adolygu a datblygu llwybrau yn canolbwyntio ar y llwybrau hynny a fydd yn rhoi'r budd mwyaf i'r boblogaeth, megis y Llwybrau Syndrom Coronaidd Acíwt a Methiant y Galon. Pan fyddant wedi'u datblygu, bydd y llwybrau hyn yn llywio'r broses arfaethedig o adolygiad gan gymheiriaid.

Mae pob model o gardioleg gymunedol, er ei fod yn amrywio rhwng ardaloedd bwrdd iechyd, yn ceisio cefnogi blaenoriaethau sy'n anelu at wella mynediad at ofal sylfaenol a chymunedol. Bydd hyn yn ystyried ffyrdd gwahanol o drin pobl, lle y bo'n briodol, mor lleol â phosibl, lleihau rhestrau aros, pwysau y gellir ei osgoi ar ofal heb ei drefnu a derbyniadau neu aildderbyniadau i'r ysbyty, yn enwedig pobl eiddil, oedrannus a'r rhai sydd â chyflyrau hirdymor.

Mae adsefydlu cardiaidd yn rhan annatod o'r llwybr a dylai gael ei gynnig yn gynnar, wedi'i ategu gan asesiad unigol o anghenion cleifion. Mae adsefydlu cardiaidd amserol yn gysylltiedig â mwy o fudd i gleifion. Mae pobl yng Nghymru yn aros yn rhy hir cyn dechrau adsefydlu ar hyn o bryd. Mae angen canolbwyntio ar sicrhau y gall pob un sydd â chlefyd y galon gael mynediad at driniaeth adsefydlu o safon dda a'u bod yn cael y driniaeth honno gyda darpariaeth gyfartal i grwpiau cleifion â blaenoriaeth ar draws llwybrau lluosog yng Nghymru.

Mae mwy o bobl yn byw gyda chyflyrau ar y galon bellach ac mae angen i ofal ôl-ysbyty a gofal yn y tymor hwy ddatblygu yn unol â'r cynnydd a wneir mewn triniaethau yn yr ysbyty. Mae'r cynllun hwn yn ceisio rhoi mwy o bwyslais ar gymorth yn y tymor hwy i bobl sy'n byw gyda chyflyrau ar y galon, gan sicrhau y caiff eu hanghenion cymorth seicolegol a chymdeithasol, yn ogystal â'u hanghenion corfforol, eu hasesu, eu diwallu a'u hadolygu'n rheolaidd.

Dylai pobl sy'n byw gyda chyflyrau ar y galon sy'n cyfyngu ar fywyd gael cymorth i gael trafodaethau cynnar ynglŷn â dwysáu cymorth a'u gofal diwedd oes. Mae angen i unigolion, a'r rhai sy'n bwysig iddynt, gael cyfle i gael trafodaethau agored a thryloyw ynglŷn â chynlluniau wedi'u personoli sy'n ei gwneud yn bosibl i fabwysiadu ymagwedd gyfannol tuag at hyrwyddo eu dewis o driniaeth, gofal a chymorth. Mae' athroniaeth gofal hon yn bwysig i unigolion a'r system gofal iechyd gan ei bod yn hyrwyddo'r canlynol: partneriaeth rhwng pob asiantaeth a all helpu i; leihau nifer y derbyniadau heb eu cynllunio i'r ysbyty; galluogi mwy o bobl i farw lle maent yn dymuno a chefnogi dymuniadau ynglŷn â gofal drwy waith cynllunio rhagweld gofal.

Mae ffigurau Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn dangos bod tua 8,000 o achosion o ataliad sydyn ar y galon y tu allan i'r ysbyty bob blwyddyn yng Nghymru⁶. Mae cyfraddau goroesi yn isel ac yn cymharu'n anffafriol â nifer o wledydd eraill. Gallai llawer mwy o fywydau gael eu hachub pe bai dadebru cardio-anadlol (CPR) a diffibrilio cynnar yn digwydd yn amlach, a phe bai'r llwybr gofal cyfan rhwng dadebru'n llwyddiannus ac wedyn adsefydlu yn cael ei wella. Mae angen arfer mwy cyson o ran rheoli cleifion ar ôl i gylchrediad digymell ddychwelyd (ROSC). Tra'n derbyn y bydd amgylchiadau unigol yn aml yn mynnu bod rhywfaint o amrywio, gallai mwy o gysondeb wella cyfraddau goroesi o bosibl a'i gwneud yn bosibl i wasanaethau clinigol gael eu halinio'n well.

Dylai pobl sydd â lefelau uchel iawn o golesterol, neu sydd â hanes personol neu deuluol o glefyd fasgwlaidd cynamserol, gael mynediad at wasanaethau hypercolesterolaemia teuluol (FH) lle gall aelodau agos o deulu'r claf gael eu profi hefyd.

Dylai pobl y mae aelod o'u teulu wedi marw'n sydyn o achos cardiaidd a amheuir ac y mae gan aelodau o'u teulu gyflyrau etifeddol ar y galon gael mynediad at gyngor a phroffion genetig priodol.

Bu farw dros chwarter y menywod a fu farw yn ystod beichiogrwydd neu hyd at chwe wythnos ar ôl beichiogrwydd o ganlyniad i achos cardiofasgwlaidd. Mae'n un o brif achosion marwolaethau ymhlith mamau yn y DU. Dylai cwnsela cyn beichiogi fod ar gael o fewn y gwasanaeth pontio cardioleg bediatrig ac i fenywod mewn oedran cael plant y gwyddys bod ganddynt glefyd ar y galon. Mae diffyg cyd-leoli gwasanaethau obstretrig a chardiaidd yn peryglu prosesau gweithio a chyfathrebu rhwng disgyblaethau. Gall mesurau megis clinigau obstetreg gardiaidd ar y cyd, cynlluniau gofal amlddisgyblaethol, copïo llythyrau at y fenyw a phob clinigydd sy'n ymwneud â'i gofal, yn ogystal â staff o bob arbenigedd, ysgrifennu yn nodiadau'r fenyw a ddelir â llaw liniaru'r risg annatod o gyfathrebu annigonol rhwng arbenigwyr.

⁶ Data rheoli Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Camau gweithredu allweddol

1. Datblygu llwybrau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer cyflyrau penodol ar y galon sy'n nodi'r safonau ansawdd neu'r gofynion, ymyriadau, terfynau amser, cerrig milltir a chanlyniadau.
2. Mae'n rhaid i fyrddau iechyd, ymddiriedolaethau, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a Rhwydwaith y Galon Cymru gynllunio a darparu gwasanaethau yn unol â llwybrau clinigol priodol, er mwyn diwallu anghenion parhaus pobl sydd â chlefyd y galon mor lleol â phosibl i'w cartref, gan gynnwys:
 - Sicrhau bod llwybrau atgyfeirio a thrin sy'n seiliedig ar dystiolaeth y cytunir arnynt
 - Sicrhau mynediad prydol (llai nag 8 wythnos) a theg at ymyriadau priodol, gan gynnwys prosesau diagnostig, technolegau, triniaethau a thechnegau newydd, yn unol â'r dystiolaeth ddiweddaraf.
 - Cyfathrebu'n effeithiol ac yn briodol â gwasanaethau arbenigol eraill yn ôl y gofyn
 - Darparu gwasanaethau diogel, effeithiol a seiliedig ar dystiolaeth mor lleol â phosibl.
 - Cytuno ar gynlluniau triniaeth â chleifion a'u gofalmwyr, gan ystyried cydafiachedd ac amlgyffuriaeth
 - Sicrhau gofal cydgysylltiedig drwy'r llwybr cyfan, fel y bydd pobl yn teimlo eu bod yn cael cymorth a gwybodaeth
 - Darparu gwasanaethau dilynol sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn y gymuned lle y bo modd, gan gynnwys mynediad at adsefydlu cardiaidd (gan gynnwys rheoli seicolegol ac ymarfer corff) a chanllawiau ar ffordd o fyw iach a hunanofal er mwyn lleihau'r posibilrwydd o ragor o afiechyd i'r eithaf.
 - Sicrhau y caiff cyffuriau a dyfeisiau eu rheoli'n effeithiol yn unol â gofynion ansawdd, gan gynnwys adolygiadau rheolaidd
 - Sicrhau trefniadau effeithiol ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty, gan gynnwys atgyfeiriadau at adsefydlu cardiaidd neu raglenni ymarfer corff cymunedol eraill
 - Darparu cynllun gofal lliniarol unigol, lle y bo'n briodol, yn unol â'r *Cynllun Darparu Gofal Diwedd Oes*
 - Rhoi profiad da i gleifion, gan flaenoriaethu gwybodaeth briodol i gleifion
 - Mesur profiad a boddhad cleifion yn systematig a gweithredu ar hynny
3. Cydlynu trefniadau effeithiol ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty a'u dychwelyd yn amserol i ysbytai lleol cyn gynted ag y bo'n glinigol briodol, ar ôl triniaeth yn unol â chynlluniau rhyddhau claf o'r ysbyty a Pholisi Dychwelyd Cymru Gyfan
4. Sicrhau bod timau adsefydlu cardiaidd wedi cael tystysgrifau Cymdeithas Atal ac Adsefydlu Cardiaidd Prydain ac yn rhoi gofal cyson ledled Cymru
5. Sicrhau mynediad cyfartal a theg i bobl sydd â nodweddion gwarchodedig megis pobl sydd ag anabledd dysgu sy'n cymryd meddyginiaeth wrthseicotig ac ati.
6. Sicrhau bod llwybrau ar waith i bobl sydd ag anhwylderau rhythm sy'n cynnwys cyngor priodol a mynediad at brofion genetig, lle y bo'n briodol
7. Sicrhau bod llwybrau ar waith i nodi a thrin unigolion sydd â Hypercolesterolaemia Teuluol a lleihau'r risg y bydd y grŵp hwn yn datblygu clefyd y galon sy'n dechrau'n gynnar

8. Datblygu a gweithredu cynllun ataliad ar y galon y tu allan i'r ysbyty i Gymru, gan sicrhau bod llwybrau clir i reoli cleifion ar ôl i gylchrediad digymell ddychwelyd (ROSC)
9. Sicrhau bod cwnsela cyn beichiogi ar gael i fenywod mewn oedran cael plant y gwyddys bod ganddynt glefyd ar y galon
10. Sicrhau bod llwybr clir ar waith i fenywod beichiog y gwyddys neu yr amheuir bod ganddynt glefyd ar y galon, gan gynnwys diagnosis cyflym, gweithio amlddisgyblaethol, gwell cyfathrebu, rhoi mewnbwn yn nodiadau'r fenyw a ddelir â llaw a chynllunio'r geni

Dangosyddion canlyniadau a mesurau sicrwydd

- Cyfraddau marwolaethau oherwydd clefyd cylchrediad y gwaed o dan 75 oed fesul 100,000 o'r boblogaeth
- Canran y cleifion sy'n aros mwy na 26 wythnos cyn brysbennu a diagnosis fel claf allanol
- Canran y cleifion sy'n aros am brofion diagnostig am fwy nag 8 wythnos ar gyfer pob llwybr atgyfeirio
- Canran y cleifion sy'n aros mwy na 10 wythnos am gam 4 (triniaeth neu ymyriad llawfeddygol)
- Canran y cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos am y llwybr atgyfeirio i driniaeth cyfan
- Canran y cleifion y mae angen Ymyriad Coronaidd Sylfaenol drwy'r Croen arnynt sy'n cael eu derbyn i ganolfan ymyriad coronaidd
- Goroesi ar ôl ataliad ar y galon y tu allan i'r ysbyty

4. Plant a Phobl Ifanc

Mae plant a phobl ifanc sydd â chyflyrau ar y galon yn cael yr oedran goroesi, rhychwant bywyd ac ansawdd bywyd gorau, drwy ddarpariaeth prosesau canfod, ymchwilio, ymyrryd, rheoli a gwybodaeth rhagorol. Caiff namau ar y galon eu canfod mewn o leiaf 1 o bob 180 genedigaeth - sef 16 y mis yng Nghymru ar gyfartaledd - gyda mwy o achosion yn cael eu canfod yn ddiweddarach mewn bywyd⁷. Mae mynychder yr anhwylderau hyn yng Nghymru tua 1% gyda thros 80% o blant sy'n cael eu geni gyda chlefyd cynhenid y galon yn goroesi tan flaenlencyndod ac oedran oedolion ifanc⁸.

Mae clefyd cynhenid y galon yn un o brif gategorïau salwch a all, o gael ei drin, adfer iechyd a gwella ansawdd bywyd. Mae'n cyfrif am y rhan fwyaf o'r llwyth gwaith cardiaidd pediatrig. Rhwng 2001 a 2011 bu cynnydd o 22% yn y gyfradd geni genedlaethol yng Nghymru a Lloegr gyda chynnydd cyfatebol yn nifer y llawdriniaethau cardiaidd pediatrig a gynhelir, sef 27%⁹.

Mae canllawiau cenedlaethol yn nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ofal effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), llwybrau gofal a safonau proffesiynol megis Safonau Clefyd Cynhenid y Galon GIG Lloegr i blant, pobl ifanc ac oedolion. Dylai pobl ifanc sydd â chyflyrau ar y galon gael mynediad cyfartal at ofal di-dor o safon uchel drwy'r llwybr cyfan sy'n unol â'r canllawiau neu'r safonau perthnasol.

Dechreuodd rhaglen Plant Iach Cymru ym mis Hydref 2016 er mwyn cynnig rhaglen graidd gyffredinol wedi'i chydgysylltu i Gymru gyfan o ymyriadau yn y 1000 diwrnod cyntaf o genhedlu, gan barhau hyd at ben-blwydd y plentyn yn saith oed. Mae ymyriadau wedi'u targedu at helpu menywod i gael beichiogrwydd iach, nodi a mynd i'r afael â risgiau sy'n arwain at bwysau geni isel a risg gardiofasgwlaidd gydol oes.

Mae'n rhaid i wasanaethau fod yn hyblyg er mwyn sicrhau bod pob person ifanc yn cael ei drin gan y gweithiwr proffesiynol mwyaf priodol ac yn y lleoliad mwyaf priodol. Bydd hyn yn dibynnu ar ddatblygiad meddyliol, emosiynol a chorfforol y person ifanc.

Mae gan blant a phobl ifanc sydd ag anghenion gofal iechyd, gan gynnwys y rhai sydd â chlefyd y galon, neu sy'n wynebu risg o farwolaeth gardiaidd sydyn, yr un hawl i gael eu derbyn mewn ysgolion â phlant eraill. Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar ysgolion i sicrhau bod pob plentyn sydd ag anghenion gofal iechyd yn cael cymorth priodol yn yr ysgol ac yn cael mynediad llawn at addysg, gan gynnwys teithiau ysgol ac addysg gorfforol. Cynghorir ysgolion, awdurdodau lleol, gweithwyr iechyd proffesiynol a gwasanaethau cymorth eraill i gydweithio er mwyn sicrhau bod plant sydd â chyflyrau meddygol yn cael addysg lawn ac yn cyrraedd eu potensial academiaidd.

Mae'r *Canllawiau ar gyfer Gofal Parhaus i Blant a Phobl Ifanc* wedi'u cynllunio i'w defnyddio gan bawb sy'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau i blant sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar eu bywyd neu sy'n peryglu eu bywyd ac y mae angen gofal parhaus arnynt, gan fyrrddau iechyd, ymddiriedolaethau, awdurdodau lleol a'u partneriaid. Mae'n disgrifio'r broses ryngasiantaethol. Dylai pob sefydliad gynnig pecynnau pwrpasol o ofal parhaus i'r plant a'r

⁷ Dadansoddiad Sefydliad Prydeinig y Galon/Prifysgol Rhydychen o gofrestrau anomaledau cynhenid BINOCAR 2006-10

⁸ Safonau Cardiaidd Pediatrig a Chynhenid Cymru Gyfan ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Arbenigol Plant a Phobl Ifanc

⁹ GIG Lloegr – Manyleb clefyd cynhenid pediatrig y galon

bobl ifanc hynny sydd ei angen am nad yw'r gwasanaethau cyffredinol neu arbenigol presennol ar eu pennau eu hunain yn gallu diwallu eu hanghenion.

Gall proses o bontio rhwng gwasanaethau iechyd i bobl ifanc a gwasanaethau i oedolion sydd wedi'i chynllunio'n wael ddwyn risg gynyddol o beidio â dilyn triniaethau a cholli triniaethau dilynol, a all fod â goblygiadau difrifol. Pan fydd plant a phobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau pediatriig yn symud i wasanaethau i oedolion, dylai'r rhain gael eu trefnu fel y bydd pawb sy'n ymwneud â'r gofal, y driniaeth a'r cymorth yn cydweithredu â'r prosesau cynllunio a'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn parhau i fod yn briodol ar gyfer oedran ac anghenion y person sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Yn ystod y broses o bontio i wasanaethau i oedolion bydd angen i'r gofal fod yn ddi-dor ar y camau pontio amrywiol rhwng lleoliadau a gwasanaethau, gan ystyried unrhyw gydafiachedd.

Camau gweithredu allweddol

1. Mae angen i wasanaethau'r ffetws, gwasanaethau newyddenedigol, gwasanaethau pediatriig a gwasanaethau oedolion i drigolion Cymru gydweithio â chanolfannau arbenigol i ddarparu gofal, gan gynnwys:
 - Sicrhau bod llwybrau atgyfeirio a thrin y cytunir arnynt
 - Cyfathrebu'n effeithiol â gwasanaethau arbenigol eraill yn ôl y gofyn er mwyn sicrhau gofal o safon uchel i blant sydd â chydafiachedd.
 - Cydlynu gwasanaethau ag addysg a gofal cymdeithasol i blant o dan yr holl amgylchiadau, gan helpu plant i gyrraedd eu potensial academiaidd a byw bywydau egniol ac iach
 - Darparu gwasanaethau diogel, effeithiol sy'n briodol ar gyfer oedran y plentyn mor lleol â phosibl.
 - Cytuno ar gynlluniau triniaeth â chleifion a'u teuluoedd
 - Sicrhau bod rhieni a phlant yn cael gofal cydgysylltiedig drwy'r llwybr cyfan, fel y byddant yn teimlo eu bod yn cael cymorth a gwybodaeth yn ystod eu taith gardiaidd
 - Cynnig cwnsela a chymorth seicolegol priodol i gleifion a'u teuluoedd
 - Darparu gwasanaeth gofal lliniarol a phrofedigaeth unigol, lle y bo'n briodol
 - Rhoi profiad da i gleifion, gan gynnwys gwybodaeth i gleifion a'u teuluoedd ac ystyried mynediad a chymorth i deuluoedd pan fydd yn rhaid iddynt fod oddi cartref;
 - Mesur canlyniadau, profiad a boddhad cleifion yn systematig a gweithredu ar hynny a chyfrannu at arolygon o gleifion, gan sicrhau y caiff plant eu cynrychioli'n briodol.
2. Sicrhau bod cleifion sydd ag anghenion cymhleth yn cael asesiad priodol, amserol o'u hanghenion gofal parhaus
3. Datblygu a gweithredu cynlluniau wedi'u hintegreiddio ac wedi'u cydgysylltu ar gyfer trosglwyddo gofal o wasanaethau pediatriig i wasanaethau oedolion

Dangosyddion canlyniadau a mesurau sicrwydd

- Wedi'i addasu yn ôl risg: canlyniad 30 diwrnod ar ôl triniaeth
- Diagnosis cynenedigol o glefyd cynhenid y galon
- Amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth i blant sydd â chyflyrau ar y galon

5. Galluogwyr dros Gyflawni

Dylai byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau ymgorffori diwylliant o arloesedd a ffyrdd newydd o weithio fel y gall cleifion gael eu trin yn agosach i'w cartrefi lle y bo'n briodol. Mae'r cynllun hwn yn cefnogi'r broses o ddatblygu gofal trawsnewidiol, er enghraifft datblygu clinigau cardioleg gymunedol lle y gellir cynnig prosesau canfod a thrin yn gynnar i gleifion. Bydd ystod o gyflyrau cardiofasgwlaidd cyffredin a phwysig yn cael eu canfod yn gynt yn y gymuned. Pan gaiff cleifion eu hatgyfeirio at yr ysbyty, bydd prosesau canfod amserol yn helpu i leihau amseroedd aros.

Mae pwysau o ran costau a phoblogaethau sy'n heneiddio yn ffactorau allweddol sy'n ysgogi'r angen i ganolbwyntio ar reoli iechyd y boblogaeth drwy gydweithio i ymateb i anghenion cleifion yn y modd mwyaf priodol yn glinigol ac o ran adnoddau.

Disgrifir nifer o gamau gweithredu allweddol yn y cynllun hwn er mwyn helpu pobl a all wynebu risg o gyflwr ar y galon neu y mae cyflwr ar y galon yn effeithio arnynt i gael y cyngor gorau a thriniaeth amserol yn y lleoliad mwyaf priodol a chael eu gweld a'u trin gan y gweithiwr iechyd proffesiynol mwyaf priodol. Mae'r cynllun hwn, drwy dargedu adnoddau at atal a rhoi gwybodaeth er mwyn i bobl wneud dewisiadau hyddysg am eu ffordd o fyw, yn anelu at leihau baich clefyd y galon ar gleifion, teuluoedd a'r gwasanaeth iechyd. Mae hefyd yn tanlinellu pwysigrwydd gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn unol ag egwyddorion gofal iechyd darbodus.

Mae'r safonau iechyd a gofal, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015, wedi'u cynllunio fel y gellir eu gweithredu ym mhob gwasanaeth a lleoliad gofal iechyd. Maent yn rhoi sail dros wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd drwy roi fframwaith y gellir ei ddefnyddio i nodi cryfderau a thynnu sylw at feysydd i'w gwella.

Mae'n rhaid i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau sicrhau bod trefniadau llywodraethu ac adrodd effeithiol er mwyn monitro bod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei roi. Mae hyn yn cynnwys ystyried pob tystiolaeth a chanllaw perthnasol, gan gynnwys canllawiau NICE a safonau proffesiynol wrth ddatblygu'r llwybr clinigol ar gyfer cleifion y galon.

Prif ddiben Rhwydwaith y Galon Cymru yw dwyn darparwyr, gweithwyr proffesiynol a'r trydydd sector ledled Cymru ynghyd a gweithio mewn partneriaeth â hwy, gan gefnogi eu prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau strategol yng nghyd-destun yr heriau allweddol a wynebier gan GIG Cymru o ran cyllid, y gweithlu a recriwtio ac ateb y galw cynyddol am ofal iechyd a disgwyliadau'r cyhoedd. Mae Rhwydwaith y Galon Cymru yn cydweithredu â phartneriaid yn y trydydd sector i gefnogi diwylliant o gynnwys a grymuso cleifion.

Mae'n rhaid bod gwella profiad y claf o ofal yn un o flaenoriaethau allweddol GIG Cymru. Mae ffocws ar 'brofiad y claf' yn chwarae rôl hollbwysig yn yr ymgyrch i wella ansawdd gofal. Mae'r Fframwaith Sicrhau Profiadau Defnyddwyr Gwasanaethau yn dadlau dros yr angen i gasglu adborth cleifion o nifer o ffynonellau, nid dim ond drwy arolygon. Dylai byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau fod wedi rhoi gweithdrefnau ar waith i gasglu barn cleifion a gofalwyr am eu profiad o'r gwasanaethau a ddefnyddiwyd ganddynt.

Drwy raglen genedlaethol Mesurau o Brofiad a Nodir gan Gleifion (PREMS) a'r Mesurau o Ganlyniadau a Nodir gan Gleifion (PROMS) dylai byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau sicrhau eu bod yn parhau i ymgysylltu â chleifion a'u grymuso er mwyn llywio'r broses o

ddatblygu, cyflwyno a pharhau i wella llwybrau i bobl sydd â chyflwr ar y galon yng Nghymru. Dylai PREMS a PROMS fod yn hygyrch i gleifion o bobl oedran, gan gynnwys plant, pobl hŷn, a'r rhai sydd â diffygion synhwyrdd, llythrennedd gwael neu anawsterau dysgu.

Mae'n rhaid bod cleifion wrth wraidd y broses o ddatblygu gwasanaethau. Caiff gwybodaeth briodol mewn iaith a fformat priodol ei chynnig i bob claf. Mae gwybodaeth glir yn ganolog i ansawdd cyffredinol profiad pob claf. Mae gwybodaeth am iechedd a gofal hygyrch o safon yn helpu pobl i gymryd rhan mewn penderfyniadau a rennir ynglŷn â'u gofal. Mae'n rhaid bod cleifion hefyd yn cael cynlluniau triniaeth clir i'w tywys drwy'r hyn a all fod yn brosesau gofal cymhleth iawn. Yn gynyddol, dylai fod modd i gleifion gael gafael ar eu cofnodion clinigol eu hunain a rhyngweithio'n ddigidol â'r gwasanaeth iechedd. Nid oes a wnelo gwybodaeth â thafleuni a gwybodaeth argraffedig yn unig; gall gynnwys arwyddion ysbytai, hysbysiadau o apwyntiadau, gwefannau, cydsyniad ar sail gwybodaeth, cofnodion iechedd personol, rhaglenni addysg i gleifion a'r cyfryngau cymdeithasol.

Mae'n rhaid i wybodaeth allweddol gydymffurfio â safonau'r Gymraeg ac mae'n rhaid iddi gael ei chynhyrchu mewn nifer o fformatau i sicrhau ei bod yn hygyrch. Mae angen i wybodaeth am iechedd a gofal i gleifion, teuluoedd, gofaluwr a'r cyhoedd fod o safon uchel, yn hawdd cael gafael arni ac yn hawdd ei deall. Dylai ennyn diddordeb pobl yn eu llesiant, gwella eu profiad a'u galluogi hwy a'u teuluoedd neu eu gofaluwr i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth am eu ffordd o fyw, eu triniaeth a'r gwasanaethau a ddefnyddiant. Drwy gynnig gwybodaeth o safon dda, gallwn helpu i sicrhau bod pobl yn teimlo eu bod wedi'u grymuso a bod ganddynt fwy o ddiogelwch a dewis ym mhob agwedd allweddol ar eu gofal iechedd. Dylai gwybodaeth gael ei chynllunio a'i chyd-gynhyrchu â chleifion, teuluoedd a gofaluwr er mwyn sicrhau ei bod yn diwallu eu hanghenion.

Mae strategaeth a chynllunio'r gweithlu ar lefel leol yn hollbwysig er mwyn cynnal gwasanaeth diogel o safon i gleifion. Dylai pob bwrdd iechedd ac ymddiriedolaeth adolygu eu gwaith o gynllunio'r gweithlu er mwyn sicrhau bod strategaethau ar waith fel bod gwasanaethau yn ateb y galw cynyddol ym maes gofal iechedd, gan gwmpasu'r holl ystod oedran o blentyndod i grwpiau oedran hŷn, ac ymdrin â gofynion cydafiachedd. Mae'n rhaid i gynlluniau cadarn sicrhau bod gan wasanaethau ddigon o staff sydd â'r sgiliau a'r cymwyseddau priodol ar gyfer y rôl a gwaith digonol ar gyfer cynllunio'r olyniant a chydnerthedd. Dylai staff gael eu cefnogi i ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus sy'n berthnasol i'w gwaith a'u grŵp cleifion. Dylai byrddau iechedd ac ymddiriedolaethau sicrhau bod seilweithiau a gwasanaethau priodol i ddenu a chadw staff o safon uchel. Mae'n rhaid i gynlluniau'r gweithlu sicrhau bod staff yn gweld digon o gleifion ac yn cynnal digon o driniaethau er mwyn iddynt barhau'n gymwys a chynnig gwasanaeth diogel a chynaliadwy i bobl y mae clefyd y galon yn effeithio arnynt.

Mae delweddu cardiaidd a phrofion diagnostig cynhwysfawr yn unol ag egwyddorion gofal iechedd darbus a dylent gael eu darparu mor gynnar ac mor lleol â phosibl. Mae darparu gwasanaethau delweddu a diagnosteg priodol yn sicrhau bod pobl yn destun cyn lleied o ymchwiladau ag sydd eu hangen i gael diagnosis cywir. Drwy wneud hyn, bydd rhai cleifion yn osgoi triniaethau diangen. Yn gynyddol, mae canllawiau cenedlaethol a rhyngwladol yn argymhell y defnydd o offer delweddu mwy newydd. Bydd angen i fyrddau iechedd ac ymddiriedolaethau adolygu eu strategaeth delweddu yn unol â'r datblygiadau newydd. Mae Delweddu Cyseinnedd Magnetig Cardiaidd (MRI) a Thomograffi Cyfrifiadurol (CT) bellach yn rhan o'r cwricwlwm craidd i hyfforddi hyfforddeion arbenigol cardiaidd ac mae angen i hyn gael ei gynnwys yng nghynlluniau'r gweithlu meddygol.

Mae newid enfawr yn y ffordd y gall gwybodaeth wella profiad, ansawdd a chanlyniadau gwasanaethau i bobl sydd â chyflyrau ar y galon. Bydd gwybodaeth o safon yn grymuso byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau gan alluogi diwylliant o wneud penderfyniadau ar y cyd. Bydd gwybodaeth yn hwyluso ac yn sbarduno integreiddio ar draws gwasanaethau yn ogystal â llywio strategaethau iechyd a llesiant sy'n diwallu anghenion cymunedau lleol.

Mae darparu gwasanaeth gwybodeg gardiaidd cenedlaethol drwy Rwydwaith y Galon Cymru yn cynnig nifer o fanteision sylweddol, gan gynnwys galluogi byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau i wneud y defnydd gorau o sgiliau arbenigol, adnoddau a phrofiad.

Bydd prosiect cyflymu gwybodeg gardiaidd Cymru Gyfan (AWACI) yn cefnogi llwybrau a phrosesau clinigol, gan alluogi gofal cydgysylltiedig, rhagweithiol a phresenoldeb data clinigol ystyrion. Bydd yn cefnogi gwell cyfathrebu a chydweithredu rhwng gweithwyr iechyd proffesiynol. Bydd prosiect AWACI yn cefnogi amserlen gyflymach o ddatblygu a gweithredu o fewn rhaglen porth clinigol Cymru gyda gofal cardiaidd fel arbenigedd arloesol sy'n galluogi cleifion i gael eu diagnosis a'u gofal, gan y clinigydd cywir, o fewn cyfnod byrrach mewn llwybr archwiliadwy diogelach.

Mae cymryd rhan mewn archwiliadau clinigol cenedlaethol yn cynnig nifer o fanteision, gan gynnwys rhoi cyfle i weithwyr gofal iechyd proffesiynol adolygu'r ffordd y caiff cleifion eu rheoli a defnyddio'r canfyddiadau i wella ansawdd gofal yn ogystal â rhoi tystiolaeth o effeithiolrwydd gwasanaethau.

Mae angen cyfranogiad llawn (100%) mewn archwiliadau clinigol cenedlaethol er mwyn monitro cynnydd yn effeithiol o ran darparu gofal y galon, darparu data cymharol ar ganlyniadau a'i gwneud yn bosibl i feincnodi'n effeithiol. Mae'n hanfodol bod y data hyn yn cael eu defnyddio i wella llwybrau'n uniongyrchol, ystyried perfformiad clinigol, gwella ansawdd ac at ddibenion ymchwil. Dylai fod gan fyrddau iechyd y gallu i ddadansoddi data lleol er mwyn gweld ac asesu'r gwasanaethau a roddant i'w poblogaeth. Bydd cysylltu archwiliadau clinigol ag adolygiadau gan gymheiriaid yn fuddiol i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau er mwyn gwerthuso ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

Mae adolygiad gan gymheiriaid o ansawdd gofal iechyd i gefnogi a llywio'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau yn cael cefnogaeth glinigol gref. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Llywio Adolygu gan Gymheiriaid i ystyried cynigion a hwyluso adolygiadau gan gymheiriaid o amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir gan y GIG yng Nghymru. Dylai adolygiadau gan gymheiriaid bellach fod wedi'u hymgorffori fel rhan o'r ymgyrch i wella ansawdd gydag adnoddau ar gael o'r cychwyn. Bu adolygiadau gan gymheiriaid yn ffordd effeithiol a rhad o werthuso gwasanaethau, gwneud gwelliannau wedi'u targedu a rhannu arfer gorau. Disgwylir i bob rhwydwaith clinigol, grŵp gweithredu a chynrychiolwyr gwasanaethau eraill gynnal adolygiad gan gymheiriaid o'u gwasanaethau. Dylent ystyried yn ofalus y ffordd orau o gynnal adolygiad gan gymheiriaid, a chysylltu â'r grŵp Llywio Adolygu gan Gymheiriaid i gael awdurdodiad a chefnogaeth er mwyn sicrhau y caiff yr adolygiadau eu cynnal yn unol â safon gyson a dibynadwy.

Bydd Grŵp Gweithredu Clefyd y Galon yn datblygu fframwaith perfformiad sy'n nodi'r dangosyddion perfformiad a chanlyniadau allweddol.

Camau gweithredu allweddol

1. Mae'n rhaid i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau roi trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i fonitro ac adolygu'r ffordd y darperir gofal diogel ac effeithiol. Mae hyn yn cynnwys ystyried pob tystiolaeth a chanllaw perthnasol, gan gynnwys canllawiau NICE a safonau ansawdd/
2. Mae'n rhaid i fyrddau iechyd, ymddiriedolaethau a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ddatblygu cynlluniau galw a chapasiti yn seiliedig ar asesiadau o anghenion lleol sy'n ystyried y gweithlu, tystiolaeth, gwybodeg, datblygiadau arloesol ac ymchwil.
3. Sicrhau bod gan bobl sydd â chyflwr ar y galon fynediad at wybodaeth hygrych o safon uchel ar bob cam o'u taith, gan eu galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth
4. Gweithredu rhaglen o adolygiadau gan gymheiriaid ar gyfer gwasanaethau cardiaidd a ddarperir i bobl Cymru
5. Sicrhau cyfranogiad llawn (100%) mewn archwiliadau clinigol cenedlaethol gorfodol, gan sicrhau gwelliannau sylweddol i'r cyfraddau cyfranogi isel presennol – er mwyn helpu i wella llwybrau a chynorthwyo gyda'r gwaith o ail-ddilysu clinigwyr yn feddygol – a sicrhau y gweithredir ar ganfyddiadau
6. Rhoi systemau effeithiol ar waith ar gyfer ceisio a defnyddio barn cleifion o bob oedran a'u gofalwyr, gan gynnwys casglu adborth cleifion o nifer o ffynonellau megis pryderon, cwynion, canmoliaeth a digwyddiadau clinigol.
7. Parhau â dull gweithredu integredig a chyson o gyflymu hyfywedd gwybodeg gardiaidd ar draws yr holl lwybrau o wybodaeth glinigol ystyrion
8. Datblygu fframwaith perfformiad sy'n nodi'r dangosyddion perfformiad a chanlyniadau allweddol

Dangosyddion canlyniadau a mesurau sicrwydd

Cydymffurfiaeth o ran canran ag archwiliadau cenedlaethol ar gyfer cleifion o bob oedran

6. Targeddu Ymchwil

Mae ymchwil yn hollbwysig i ofal effeithiol pobl sydd â chyflwr ar y galon ac mae'n rhaid i'r GIG ymateb i dystiolaeth yr ymchwil ddiweddaraf yn y gwaith o gynllunio a darparu ei wasanaethau. Mae ymchwil i'r galon yng Nghymru hefyd yn hollbwysig o ran denu buddsoddiad a staff y GIG o'r radd flaenaf. Mae gan Gymru enw gwych eisoes yn y maes hwn.

Mae ymchwil i'r galon yn arwain at welliannau parhaus yng nghanlyniadau cleifion. Mae'n rhaid i'r GIG hyrwyddo ymchwil a sicrhau mynediad priodol at dreialon clinigol. Mae cleifion yn cael budd drwy'r broses barhaus o weithredu arfer gorau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Yn y tymor hwy, mae cleifion hefyd yn cael budd o ddealltwriaeth well o'r hyn sy'n achosi cyflyrau ar y galon. Mae hyrwyddo diwylliant o ymchwil mewn ysbytai yn denu personél hyfedr i Gymru, gan roi cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a chael profiad o roi triniaethau arloesol.

Mae buddsoddi mewn ymchwil sy'n cael ei chynnal yn y sector prifysgolion a'r GIG yn bwysig er mwyn helpu i sicrhau bod darganfyddiadau yn y labordy yn cael eu troi'n driniaethau newydd ac yn ofal gwell i bobl sy'n byw gyda chlefyd y galon a chlefyd cylchrediad y gwaed.

Yn y sector prifysgolion, mae ymchwilwyr o Gymru yn cyhoeddi ymchwil o safon uchel. Yn yr asesiad mwyaf diweddar o ansawdd ymchwil yn y DU gyfan, gwelwyd bod dros dri chwarter yr ymchwil ym mhrifysgolion Cymru o'r radd flaenaf neu'n rhagorol yn rhyngwladol. Fodd bynnag, nodwyd mewn nifer o adroddiadau bod Cymru yn denu canran is o arian ymchwil cystadleuol nag y dylai, o ystyried maint ei phoblogaeth. Yn ôl adroddiad diweddar gan y Sefydliad Arwain Addysg Uwch, gellir priodoli hyn o bosibl i'r ffaith bod diffyg o tua 600 o academyddion yng Nghymru, yn bennaf ym maes Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg, Mathemateg a Meddygaeth (STEMM).

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod angen cynyddu gallu ac adnoddau ymchwilio yng Nghymru ac mae'n amlinellu nifer o fentrau yn ei strategaeth Gwyddoniaeth i Gymru er mwyn galluogi hyn, gan gynnwys rhaglen Sêr Cymru, sydd â'r nod o ddenu 'sêr ymchwil' i Gymru.

Yn y GIG, caiff ymchwil ei chefnogi gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, gyda phob un o saith bwrdd iechyd a thair ymddiriedolaeth Cymru yn cael eu cefnogi gan dîm ymchwil a datblygu. Mae'r angen i feithrin gallu ymchwilio hefyd wedi'i nodi fel blaenoriaeth ar gyfer ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol, gydag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn nodi meithrin gallu fel nod strategol yn ei Gynllun Strategol ar gyfer 2015-2020.

Mae angen cydnabod hefyd bod y trydydd sector yn bartneriaid allweddol yn y gwaith o ddatblygu ymchwil, fel cyllidwr ymchwil a chefnogi ymwneud cleifion â threialon clinigol ac ymchwil gymdeithasol.

Mae angen cymorth ym mhob rhan o'r llif arfaethedig o ymchwil gyda rhyngweithio cadarn rhwng y byd academiaidd a'r GIG er mwyn sicrhau y caiff darganfyddiadau ymchwil eu troi'n ofal gwell i gleifion ar raddfa uwch. Mae plant a phobl ifanc yn cael eu tangynrychioli mewn rhaglenni ymchwil a rhaglenni datblygu cyffuriau, a dylid unioni'r cydbwysedd hwn.

Mae data a gesglir yn y system iechyd yn werthfawr iawn i ymchwilwyr. Mae'n ein helpu i ateb cwestiynau ynglŷn â mynychder clefydau, canlyniadau i gleifion ac effeithiolrwydd triniaethau newydd, gan lywio'r broses o ddatblygu a darparu gwell gofal i gleifion yn y pen draw. Dylai byrddau iechyd ystyried sut y gallant ddefnyddio'r Gronfa Ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) yn eu hymchwil ac ystyried canlyniadau ymchwil SAIL wrth gynllunio gwasanaethau a gofal. Mae SAIL yn system cyswllt data dienw o'r radd flaenaf, sy'n dwyn ynghyd yn ddiogel y casgliad ehangaf posibl o ddata a gesglir yn rheolaidd at ddibenion ymchwil, datblygu a gwerthuso. Dylai sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol barhau i gydweithio'n agos â SAIL er mwyn sicrhau y gallwn wneud y defnydd gorau posibl o ddata ar iechyd a gesglir yn rheolaidd er budd cleifion, tra'n sicrhau bod mesurau priodol ar waith i ddiogelu cleifion.

Dros y pedair blynedd nesaf, byddwn yn canolbwyntio'n fwyfwy ar ansawdd ac effaith ein hymchwil. Mae angen inni sicrhau ein bod yn galluogi pob ymchwilydd i ymgymryd ag ymchwil a chyflwyno ei (g)waith gorau posibl, gan gyhoeddi mewn mannau o'r safon uchaf, a gweithio gyda'r partneriaid gorau y tu mewn i'r sector iechyd a thu hwnt ac ymateb i'r heriau mawr y mae ein cymunedau yn eu hwynebu. Caiff disgwyliadau clir ynglŷn â pherfformiad ymchwil eu nodi ac, ar yr un pryd, caiff y systemau eu creu i gefnogi a datblygu diwylliant o ragoriaeth mewn ymchwil.

Camau gweithredu allweddol

1. Gweithio gydag arweinydd arbenigedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, ymchwilwyr a gwasanaeth cefnogi a darparu Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i gynyddu nifer yr astudiaethau ymchwil o gyflyrau ar y galon a gynhelir yng Nghymru.
2. Annog mwy o bobl sydd â chyflyrau ar y galon ledled Cymru i gymryd rhan mewn gweithgarwch ymchwil.
3. Creu mwy o gyfleoedd i bobl sydd â chyflwr ar y galon ac y mae cyflwr ar y galon yn effeithio arnynt fod yn rhan o weithgarwch ymchwil
4. Sicrhau bod trefniadau ar waith i sicrhau bod ymchwil yn bwydo i mewn i systemau sefydliadau ar gyfer mabwysiadu arfer gorau a newidiadau i wasanaethau er mwyn gwella ymarfer clinigol a chanlyniadau i gleifion fel y bydd cleifion yn cael mynediad cyflymach i adnoddau diagnostig, triniaethau a thechnolegau meddygol newydd arloesol.
5. Monitro'r dangosyddion perfformiad perthnasol allweddol a nodir yn y Fframwaith Cyflawni ar gyfer Rheoli Perfformiad Ymchwil a Datblygu'r GIG
6. Mynnu cael cymeradwyaeth foesegol ymchwil er mwyn cyfiawnhau peidio â chynnwys plant a phobl ifanc mewn prosiectau ymchwil.
7. Sicrhau y caiff arweinydd ymchwil a datblygu ei nodi a rhoi arweinyddiaeth weladwy ym maes ymchwil a datblygu ar gyfer y cynllun cyflawni.
8. Ehangu a datblygu partneriaethau newydd, yn lleol ac yn fyd-eang, sy'n ei gwneud yn bosibl i'n hymchwil wneud gwahaniaeth, gan wella bywydau pobl sy'n byw yng Nghymru ac eraill ledled y byd
9. Sicrhau bod trefniadau ar waith i helpu clinigwyr i ymgymryd ag ymchwil, gan gynnwys defnyddio amser wedi'i ddiogelu ar gyfer ymchwil a threialon clinigol

10. Sicrhau bod trefniadau ar waith i ddatblygu sgiliau a phrofiad clinigwyr er mwyn eu galluogi i ymgymryd ag ymchwil a threialon clinigol

Dangosyddion canlyniadau a mesurau sicrwydd

- Canran y bobl sydd â chyflyrau ar y galon yn ôl grŵp oedran sy'n cymryd rhan mewn treialon clinigol

7. Rhoi'r cynllun cyflawni ar gyfer cyflyrau ar y galon ar waith

Mae'r cynllun cyflawni hwn wedi amlinellu'r weledigaeth a'r uchelgeisiau i bobl, o bob oedran, sy'n wynebu risg o gyflwr ar y galon neu y mae cyflwr ar y galon yn effeithio arnynt yng Nghymru. Bydd gwneud hyn yn golygu cydweithio rhwng pawb sy'n gyfrifol am ofal pobl sydd â chyflyrau ar y galon yng Nghymru.

Mae'n nodi'r canlyniadau iechyd a ddisgwylir i bobl Cymru a bydd y Grŵp Gweithredu Cyflyrau ar y Galon a Llywodraeth Cymru yn dwyn y GIG i gyfrif er mwyn sicrhau y caiff y camau gweithredu yn y cynllun hwn a'r canlyniadau iechyd a ddymunwn eu cyflawni.

Bydd y llinellau atebolrwydd drwy Gadeiryddion y byrddau iechyd a'r ymddiriedolaethau i Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd, Llesiant a Chwaraeon a bydd Prif Weithredwyr y byrddau iechyd a'r ymddiriedolaethau yn atebol i Brif Weithredwr GIG Cymru, sydd hefyd yn Gyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

Bydd grŵp gweithredu cenedlaethol yn llywio'r cynllun ac yn datblygu atebion unwaith i Gymru er mwyn cefnogi Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau. Bydd arweinwyr clinigol rhwydwaith yn gweithio gyda'r byrddau iechyd, gyda chymorth rhwydwaith i Gymru gyfan.

Rôl y Grŵp Gweithredu Cyflyrau ar y Galon yw goruchwyllo'r cynllun cenedlaethol, helpu byrddau iechyd i'w gyflawni ac asesu eu cynlluniau lleol yn feirniadol. Mae'r grŵp gweithredu yn dwyn y rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys pob bwrdd iechyd, pob ymddiriedolaeth, y trydydd sector, gofal eilaidd, y llywodraeth a rheolwyr, ynghyd i gydweithredu.

Bydd y Grŵp Gweithredu Cyflyrau ar y Galon yn adolygu cynnydd yn erbyn y cynllun cyflawni hwn o leiaf unwaith y flwyddyn. Bydd y rolau arwain clinigol cenedlaethol yn helpu i gyflawni'r cynllun a byddant yn gweithio'n agos gyda'r grŵp gweithredu, gyda ffocws ar weithio ar draws ffiniau traddodiadol i sicrhau gwelliannau yng ngofal pobl sydd â chyflyrau ar y galon.

Mae byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yn gyfrifol am gynllunio; sicrhau a darparu gwasanaethau lleol, gan sicrhau y gall y bobl hynny y mae angen gofal arnynt gael mynediad at y gofal cywir ar yr adeg gywir yn y man cywir. Bydd gan bob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth grŵp cynllunio a chyflawni lleol. Bydd angen i'r grwpiau lleol gynllunio gwasanaethau'n effeithiol dros eu poblogaethau a chreu ac arwain cynghreiriau ag Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru, y byrddau iechyd a'r ymddiriedolaethau eraill yng Nghymru a Lloegr, meddygon teulu, llywodraeth leol a chyrff gwirfoddol yn y trydydd sector. Bydd angen i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau integreiddio eu cynlluniau ar gyfer cyflyrau ar y galon â chynllun tymor canolig integredig y bwrdd iechyd yn gyffredinol a sicrhau y caiff pob agwedd ar y cynllun cyflawni, wedi'i llywio gan eu hasesiad o anghenion lleol, ei chynnwys yn eu proses gynllunio.

Bydd y Grŵp Gweithredu Cyflyrau ar y Galon yn cefnogi byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau, gan gynnwys eu grwpiau cyflawni lleol, drwy gynnig arweinyddiaeth a goruchwyliaeth gadarn a chydgyssylltiedig. Bydd yn cydlynu blaenoriaethau a chamau gweithredu cenedlaethol mewn ffordd strategol.

Bydd y Grŵp Gweithredu yn gwneud y canlynol:

- Gweithio mewn ffordd gydgyssylltiedig, ar lefel Cymru gyfan, i helpu byrddau iechyd a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru i gyflawni'r camau gweithredu yn y cynllun hwn a sicrhau'r canlyniadau a ddymunir
- Cytuno ar ffocws dros gyflawni bob blwyddyn a rhoi arweiniad clir i fyrddau iechyd i'w helpu i baratoi eu cynlluniau tymor canolig integredig tair blynedd, gan sicrhau bod cyflyrau ar y galon a'i flaenoriaethau yn cael eu hymgorffori'n llawn yn eu cynlluniau
- Datblygu fframwaith perfformiad sy'n nodi'r dangosyddion perfformiad a chanlyniadau allweddol
- Hwyluso'r broses o rannu a gweithredu arfer gorau
- Nodi cyfyngiadau a datblygu atebion cenedlaethol i broblemau cyffredin lle bo angen dull gweithredu strategol
- Adolygu camau gweithredu cynlluniau cyflawni byrddau iechyd a'u hasesu'n feirniadol yng ngoleuni cynnydd a datblygiadau newydd
- Adolygu mesurau canlyniadau a pherfformiad priodol yn flynyddol
- Monitro perfformiad un neu ddau o'r dangosyddion allweddol ym mhob cyfarfod ac uwchgyfeirio meysydd sy'n achos pryder i Lywodraeth Cymru
- Cyflwyno datganiad blynyddol i Lywodraeth Cymru sy'n nodi'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn, wedi'i lywio gan adroddiadau cynnydd lleol

Mae'n ofynnol i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau fonitro eu perfformiad yn erbyn y cynllun cyflawni ar gyfer cyflyrau ar y galon yn erbyn cyfres o fesurau perfformiad a bennwyd yn genedlaethol a chyflwyno adroddiad arnynt i'r grŵp gweithredu a Llywodraeth Cymru bob blwyddyn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i oruchwylio'r fframwaith cyflawni a sicrwydd a chyhoeddi datganiad cenedlaethol o gyflawniad bob blwyddyn. Bydd hefyd yn galluogi ac yn cefnogi cysylltiadau rhwng y Grŵp Gweithredu a Gweinidogion Cymru.

Atodiad 1 – Dogfennau Strategol a Deddfwriaethol Ategol

Y Rhaglen Lywodraethu Newydd a Chynllun y GIG

Mae *Rhaglen Lywodraethu* a Chynllun GIG Llywodraeth Cymru yn nodi rhaglen uchelgeisiol ar gyfer iechyd a llesiant yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar wella ein gwasanaethau gofal iechyd; ein staff gofal iechyd; bod yn iach ac yn weithgar; ein hiechyd meddwl a'n llesiant; y dechrau gorau posibl i blant a gofal i bobl hŷn.

Amlinellodd Rhagori: Y Cynllun Sicrhau Ansawdd ar gyfer y GIG yng Nghymru, 2012-16 gamau gweithredu ar gyfer sicrhau ansawdd a gwelliant. Ymrwymiad i GIG a arweinir gan ansawdd sy'n darparu gwasanaethau sy'n ddiogel, yn effeithiol, yn hygyrch, ac yn gynaliadwy. Mae'r cynllun hwn wrthi'n cael ei ddiweddarau ar hyn o bryd.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ym mis Ebrill 2015 i wella llesiant economaidd-gymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Ei nod yw sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn meddwl mwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau ac â'i gilydd a cheisio atal problemau a gweithredu mewn ffordd fwy cydgysylltiedig. Mae'r Ddeddf yn nodi saith nod llesiant, a phum ffordd o weithio er mwyn helpu i roi'r nodau hyn ar waith:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae'r Ddeddf hefyd yn sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru y mae'n rhaid iddynt baratoi a chyhoeddi cynllun llesiant lleol sy'n nodi ei amcanion a'r camau y bydd yn eu cymryd i'w cyflawni. Disgwylir i'r cynlluniau hyn lywio'r broses o bennu blaenoriaethau lleol.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae nifer o gamau gweithredu yn y cynllun cyflawni hwn wedi'u datblygu i ymgorffori ymhellach ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar fyrdau iechyd, ymddiriedolaethau ac awdurdodau lleol i asesu anghenion gofal a chymorth y boblogaeth leol ar y cyd, gan gynnwys anghenion cymorth gofalwyr. Bwriedir i'r asesiad o'r boblogaeth sicrhau bod byrdau iechyd, ymddiriedolaethau ac awdurdodau lleol yn paratoi sylfaen dystiolaeth glir a phenodol i lywio penderfyniadau cynllunio a gweithredol amrywiol, gan gynnwys Cynlluniau Tymor Canolig Integredig.

Asesiad o Anghenion y Boblogaeth

Mae asesiadau o anghenion y boblogaeth yn hollbwysig i ddatblygu strategaethau hirdymor da. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn glir bod angen gwneud hyn ar y cyd â chyrrff gwasanaethau cyhoeddus eraill, megis awdurdodau lleol, addysg a thai. Dylai asesiadau o anghenion y boblogaeth ategu'r cynllun llesiant lleol, a ddatblygir gan fyrdau gwasanaethau cyhoeddus.

Y 64 o glystyrau gofal sylfaenol fydd y sail dros y dull cydweithredol hwn o gynllunio a darparu gwasanaethau integredig. Gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau ariannol, adnoddau'r gweithlu ac adnoddau eraill sydd ar gael, nid yn unig adnoddau'r GIG ond adnoddau awdurdodau lleol, y trydydd sector a'r sector annibynnol ac asesu cymunedau lleol er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i'r rhai sy'n wynebu risg o ddatblygu cyflyrau ar y galon neu y mae ganddynt gyflyrau ar y galon.

Gofal Iechyd Darbodus

At hynny, mae'r cynllun hefyd wedi'i ategu gan egwyddorion Iechyd a Gofal Darbodus. Mae'r ffordd y mae gwasanaethau wedi cael eu llunio a'u cyflwyno yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn rhoi tystiolaeth dda o Iechyd a gofal darbodus ar waith ac mae'r cynllun cyflawni hwn yn anelu at atgyfnerthu'r dull gweithredu hwnnw drwy roi mwy o bwyslais ar atal, integreiddio a chynaliadwyedd hirdymor. Mae rhoi anghenion defnyddwyr gwasanaethau wrth wraidd y broses o ddylunio gwasanaethau, cyd-gynhyrchu mewn prosesau cynllunio a gofal a thriniaeth a gwasanaethau a ddarperir gan weithwyr proffesiynol yn y sector statudol a'r trydydd sector yn enghreifftiau da o'r ffordd y mae egwyddorion Iechyd a gofal darbodus yn ategu'r broses o ddarparu gwasanaethau.

Anghydraddoldebau Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Bydd cymryd y camau gweithredu a nodir yn y cynllun yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at amcanion agenda cydraddoldeb Llywodraeth Cymru drwy ymrwymiad i nodi a diwallu anghenion pob grŵp mewn perthynas â chlefyd y galon, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd difreintiedig sy'n fwy tebygol yn ystadegol o fyw mewn tloedi ac wynebu mwy o risg o glefyd y galon. Mae hyn hefyd wedi cynnwys ystyried yr erthyglau a geir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae adroddiad blynyddol diweddaraf y Prif Swyddog Meddygol yn canolbwyntio ar gydbwysu gofal Iechyd o'r newydd – gan weithio mewn partneriaeth i leihau anghydraddoldeb cymdeithasol ac ystyried effeithiau'r graddiant cymdeithasol ar bobl Cymru, a'r hyn y gellir ei wneud i fynd i'r afael â hynny.

Y Gymraeg

Mae amcanion fframwaith strategol 'Mwy na geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau yn y Gymraeg ym maes Iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol hefyd wedi cael eu hymgorffori yn y cynllun drwy gamau gweithredu sy'n ei gwneud yn glir bod yn rhaid i bob sefydliad sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau sicrhau bod gwasanaethau o'r fath ar gael i'r rhai sy'n dymuno cyfathrebu yn Gymraeg.

Iechyd a gofal gwybodus – Strategaeth Iechyd a gofal cymdeithasol digidol ar gyfer Cymru

Mae'n amlinellu'r ymrwymiad i roi mynediad at y gwasanaethau gorau posibl i'r cyhoedd drwy ei gwneud yn bosibl i weithwyr Iechyd proffesiynol ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf yn ei strategaeth Iechyd digidol a gyhoeddwyd yn 2015. Mae hon yn sbardun i ddatblygu ac arloesi o ran defnyddio technoleg gwybodaeth ym maes gofal y galon er budd cleifion.

Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair

Mae'n nodi rhaglen gydgyssylltiedig er mwyn sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd drwy ymyriadau cynnar, cymorth i deuluoedd a gwasanaethau integredig, sy'n canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau gwell a lleihau anghydraddoldeb i blant.

Datblygu Gweithlu Medrus

Y gweithlu yw'r elfen fwyaf hanfodol yn y GIG a'r trydydd sector a'r penderfynydd allweddol i lwyddiant unrhyw sefydliad. Mae gweithlu brwdfrydig, cynaliadwy a medrus yn hanfodol er mwyn darparu gofal o safon uchel a thrawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu er mwyn ateb yr heriau lu a wynebir gan GIG Cymru heddiw. Mae'n rhaid i weithlu gael ei gynllunio a'i ddatblygu ar sail egwyddorion gofal iechyd darbodus (h.y. sut y bydd proffil eich gweithlu yn newid i'w gwneud yn bosibl i weithwyr proffesiynol ganolbwyntio ar ble y gallant ychwanegu'r gwerth mwyaf).

Deddfwriaeth a pholisïau eraill

Bydd angen ystyried deddfwriaeth a pholisïau newydd perthnasol yn ystod oes y cynllun hwn, yn enwedig o ran iechyd y cyhoedd.

ATODIAD 2 – Dolenni Wedi'u Diweddaru I Ddogfennau Cyfeirio

Cynllun Cyflawni ar gyfer Gofal Diwedd Oes (cynllun wedi'i ddiweddaru i'w gyhoeddi ym mis Ionawr 2017)

<http://gov.wales/topics/health/nhswales/plans/end-of-life-care/?lang=cy>

Cynllun Cyflawni ar gyfer y Rhai sy'n Ddifrifol Wael (cynllun wedi'i ddiweddaru i'w gyhoeddi ym mis Ionawr 2017)

<http://gov.wales/topics/health/nhswales/plans/delivery-plan/?lang=cy>

Cynllun Cyflawni ar gyfer Diabetes

<http://gov.wales/topics/health/nhswales/plans/diabetes/?lang=cy>

Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc (cynllun wedi'i ddiweddaru i'w gyhoeddi ym mis Ionawr 2017)

<http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/reports/plan/?lang=cy>

Cynllun Cyflawni ar gyfer Clefydau Prin (i'w ddiweddaru yn ystod 2017)

<http://gov.wales/topics/health/nhswales/plans/rare/?lang=cy>

Cynllun Cyflawni ar gyfer Rhoi Organau

<http://gov.wales/topics/health/nhswales/organ/transplantation/?lang=cy>

Congenital Heart Disease Services Standards

<https://www.england.nhs.uk/commissioning/spec-services/npc-crg/chd/>

Bristol Review

<http://www.thebristolreview.co.uk/Bristol-Review--FINAL-REPORT.pdf>

National Confidential Enquiry into Patient Outcome and Death: Time to Intervene (2012)

<http://www.ncepod.org.uk/2012cap.html>

Y Rhaglen Lywodraethu

<http://gov.wales/about/programme-for-government/?lang=cy>

Ymgorffori egwyddorion gofal iechyd darbodus

<http://gov.wales/topics/health/nhswales/prudent-healthcare/?lang=cy>

Sicrhau Iechyd a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Chwefror 2016

<http://www.prudenthealthcare.org.uk/sicrhau-iechyd-a-llesiant-cenedlaethau-dyfodol/>

Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015)

<http://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/care-standards/?lang=cy>

Rhagori: Y Cynllun Sicrhau Ansawdd ar gyfer y GIG yng Nghymru

<http://gov.wales/topics/health/nhswales/plans/excellence/?lang=cy>

Fframwaith Cynllunio GIG Cymru

<http://gov.wales/topics/health/nhswales/organisations/planning/>

Cynllun Gwasanaethau Gofal Sylfaenol

<http://gov.wales/topics/health/nhswales/plans/care/?lang=cy>

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

<http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=cy>

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

<http://gov.wales/topics/health/socialcare/act/act-nhs/?lang=cy>

Iechyd a gofal gwybodus – Strategaeth iechyd a gofal cymdeithasol digidol ar gyfer Cymru

<http://gov.wales/topics/health/nhswales/about/e-health/?lang=cy>

Cynllun Strategol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru 2015

https://www.ymchwiliachydagofal.llyw.cymru/uploads/Policy%20%26%20Strategy/Ymchwil_Iechyd_a_Gofal_Cymru_Cynllun%20Strategol_2015_2020.pdf

Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd

<http://gov.wales/topics/health/publications/health/reports/public-health-framework?lang=cy>

Fframwaith strategol olynol Mwy na geiriau.... ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol

<http://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/words/?lang=cy>

Safonau Cymru Gyfan ar gyfer cyfathrebu a gwybodaeth i bobl sydd â nam ar eu synhwyrau

<http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/guidance/standards/?lang=cy>

Adolygiad gan gymheiriaid (i'w gyhoeddi)

Fframwaith ar gyfer Sicrhau Gwelliant i Ddefnyddwyr Gwasanaethau a Chwestiynau Craidd

<http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/profiadau-cleifion>

***Gofal Diogel, Gofal Tosturiol:* Fframwaith Llywodraethu Cenedlaethol i alluogi gofal o ansawdd da yn GIG Cymru**

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1064/Safe%20Care%2C%20Compassionate%20Care%20-%20Welsh%20Final%20version%20for%20publication%20-%20January%202013.pdf>

Darparu Gofal Integredig Lleol

<http://gov.wales/topics/health/publications/socialcare/strategies/integration/?lang=cy>

Gwella gofal ysbytai cyffredinol i gleifion sydd ag anabledd dysgu

<http://www.1000livesplus.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1011/How%20to%20%2822%29%20Learning%20Disabilites%20Care%20Bundle%20web.pdf>

Fframwaith ar gyfer darparu iechyd a gofal cymdeithasol integredig i bobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth

<http://gov.wales/topics/health/publications/socialcare/strategies/integration/?lang=cy>

Canllawiau ar gyfer gofal parhaus i blant a phobl ifanc

<http://gov.wales/topics/health/publications/socialcare/guidance1/care/?lang=cy>

Cynlluniau hunanofal a gofal

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/100102frameworkselfcareen.pdf>

<http://gov.wales/topics/health/nhswales/healthservice/chronic-conditions/?lang=cy>

Cydsyniad Cleifion

<http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=465&pid=11930>

Polisi Cymru Gyfan ynglŷn â Na cheisier dadebru cardio-anadlol

<http://www.wales.nhs.uk/news/35793>

Atwrneiaeth Arhosol

[http://www.olderpeoplewales.com/wl/Publications/pub-story/16-01-04/An easy guide to lasting powers of attorney.aspx#.WGZlulOLQdW](http://www.olderpeoplewales.com/wl/Publications/pub-story/16-01-04/An_easy_guide_to_lasting_powers_of_attorney.aspx#.WGZlulOLQdW)

Adolygiad o Weithlu GIG Cymru

<http://gov.wales/topics/health/publications/health/reports/workforce/?lang=cy>

Fframwaith Rheoli Perfformiad Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

<https://www.ymchwilielchydagofal.llyw.cymru/rheoli-perfformiad/?force=2>

Ymgysylltu â Diwydiant yng Nghymru

<https://www.ymchwilielchydagofal.llyw.cymru/ymgysylltu-diwydiant/?force=2>

Fframwaith Cyflawni ar gyfer Rheoli Perfformiad Ymchwil a Datblygu'r GIG

<https://www.ymchwilielchydagofal.llyw.cymru/polisi-ariannu-ymchwil-a-datblygur-gig/?force=2>